Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Canllaw i ffermwyr a busnesau eraill

Pam fod amaeth-dwristiaeth cynaliadwy yn cynnig cyfleoedd marchnata i'r sector organig

Gorffennaf 2011

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagair

Mae twristiaeth yn fusnes cystadleuol ac fe gynhyrchwyd y canllaw hwn ar gyfer ffermwyr a busnesau eraill sy'n ystyried, neu sydd yn rhedeg menter amaeth-dwristiaeth. Mae'n bwrw golwg gyffredinol ar y sector amaeth-dwristiaeth organig fel y mae ar hyn o bryd, yn edrych ar y farchnad, yn rhoi arweiniad ar sefydlu a gwella mentrau amaeth-dwristiaeth ac yn trafod materion ehangach sy'n ymwneud â thwristiaeth bwyd a chynaliadwyedd.

Mae'r galw gan ddefnyddwyr am dwristiaeth 'gwyrdd' yn amlwg ar gynnydd ac mae ffermydd organig eisoes yn sgorio'n uchel ar gymwysterau amgylcheddol. Gall datblygu mentrau amaeth-dwristiaeth felly gryfhau busnes y fferm yn gyffredinol yn ogystal â chynnig cyfleoedd yn y farchnad i gynnyrch fferm organig.

Mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn i rai sy'n ystyried opsiwn o'r fath gyda manylion am yr elfennau hynny sy'n ofynnol ar gyfer cynllun busnes cynhwysfawr. I'r rhai hynny sydd eisoes yn rhedeg mentrau amaeth-dwristiaeth mae yma gyngor ymarferol ar fesurau i leihau allyriadau carbon, i arbed ynni ac ar sut i hyrwyddo eu cyrchfan fel 'dewis gwyrdd'.

O ystyried natur gystadleuol y farchnad, mae manteision ardystio fel busnes 'gwyrdd' neu fel busnes amaeth-dwristiaeth gynaliadwy hefyd yn cael eu trafod.

Gyda'r pwyslais ar y darlun cyflawn, mae'r canllaw hefyd yn archwilio sut y gall y sector amaeth-dwristiaeth ehangach gynnig cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer bwyd organig a chynyddu eu cymwysterau 'gwyrdd' eu hunain drwy gynnig bwyd organig.

Wrth i fwy a mwy o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, blas lleol a gwir brofiadau gyfuno, mae amaeth-dwristiaeth organig yn sector o'r farchnad sy'n fwy na pharod ar gyfer datblygiad pellach.

Sue Fowler
Cyfarwyddwr
Canolfan Organig Cymru

Cynnwys

Rhagair	1
Crynodeb	2
Cyflwyniad	3
Deall y farchnad ar gyfer amaeth-dwristiaeth organig	4
Dod o hyd i a defnyddio bwyd organig	7
Gwella eich cymwysterau gwyrdd	9
Cwrdd â disgwyliadau ymwelwyr gyda mentrau ardystiedig o ansawdd uchel	13
Cynllunio menter amaeth-dwristiaeth	15
Cyllido yng Nghymru	17
Casgliad	18
Rhestr o Dablau a Ffigurau	18
Cydnabyddiaethau	18

Crynodeb

Mae twristiaeth yn fusnes cystadleuol

Mae angen i fenter amaeth-dwristiaeth organig newydd ymchwilio i'r farchnad yn ofalus.

Mae llawer o ymwelwyr yn chwilio am lety sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd

Mae bwyd o Gymru hefyd yn bwysig i ymwelwyr sy'n bwriadu aros wrth ddewis cyrchfan wyliau.

Mae amaeth-dwristiaeth yng Nghymru yn gyfle marchnata i gynhyrchwyr bwyd organig

Mae'n farchnad bwysig ar gyfer bwyd organig a bwyd sy'n lleol Gymreig – ac yn un â photensial mawr iddi. Erbyn hyn mae cynnyrch organig ar gael o ystod eang o gyflenwyr ar gyfer yr holl ddarparwyr lletygarwch yng Nghymru.

Gall busnesau amaeth-dwristiaeth organig ddarparu incwm ychwanegol

Mae'n bosibl i wneud defnydd o adeiladau sy'n bodoli eisoes, i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch fferm, a chreu mwy o swyddi.

Eisoes, mae'r rhai sy'n darparu gwasanaeth amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru yn mabwysiadu mesurau amgylcheddol sy'n hyrwyddo cadwraeth a chynaliadwyedd

Mae gofyn i bob menter dargedu ymwelwyr sydd â chydymdeimlad gyda materion gwyrdd a chynaliadwy.

Gall pob busnes amaeth-dwristiaeth wella ei gymwysterau gwyrdd –

trwy ddarparu bwydydd organig, lleol a thymhorol; gan ddilyn y tair A sef Arbed, Ailddefnyddio ac Ailgylchu; a defnyddio ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn dda.

Ymunwch â chynllun achredu twristiaeth werdd

Mae'n dangos bod y busnes wedi ymrwymo i dwristiaeth gynaliadwy. Mae'n gwneud yn siŵr fod y busnes yn gweithredu i reoliadau amgylcheddol. Mae'n dangos safonau datblygiad cynaliadwy da.

Gwnewch gynllun busnes

Gwnewch hyn cyn cychwyn ar fenter newydd. Dylai ddangos ble mae'r busnes yn awr, i ba gyfeiriad y mae am fynd a sut mae'n mynd i gyrraedd yno.

Cyflwyniad

Er nad yw'r cysylltiad rhwng twristiaeth a bwyd wedi cael ei ymchwilio yn eang, ni ellir gor-bwysleisio ei bwysigrwydd. Mae gwyliau yn aml iawn yn cael ei gysylltu â bwyd a diod ac mae twristiaeth wedi bod yn ddylanwadol iawn wrth lunio ein chwaeth tuag at fwyd a diod yn yr oes fodern.

Mae grymoedd newydd ym maes twristiaeth fodd bynnag, sy'n cael eu gyrru gan ddiddordeb ymwelwyr yn yr amgylchedd ac mewn bwyd organig. Un ymateb i hyn yn Ewrop fu'r mudiad Gwesty Bio, a sefydlwyd yn 2001 yn Awstria. Mae gan Gymdeithas y Gwestai Bio bellach aelodau mewn saith gwlad. Mae logo'r "Gwesty Bio" yn gwarantu y bydd popeth fydd y gwestai yn ei dderbyn yn organig. Mae nifer o Westai Bio wedi gosod systemau ynni adnewyddadwy, yn casglu a defnyddio dŵr glaw, gyda deunydd inswleiddio wedi'i wneud o ddeunyddiau naturiol ac yn defnyddio paent naturiol yn unig. Yn rhai o'r gwestai mae yna welyau heb ddarnau metel o gwbl, llieiniau a thywelion wedi'u gwneud o decstilau naturiol ac yn cynnig ystafelloedd sy'n rhydd o fwrllwch electronig.

Gwneud y cysylltiad rhwng bwyd da, arferion ffermio da a gwyliau da

Mae Gwestai Bio yn rhan o'r diddordeb ehangach sydd yna mewn cynlluniau amaeth-dwristiaeth a thwristiaeth bwyd. Mae amaeth-dwristiaeth organig yn dwyn y syniadau hyn at ei gilydd. Dyma ble mae twristiaeth fferm yn cyfuno gyda'r gwerthfawrogiad a'r defnydd o gynnyrch organig a ble mae'r darparwr llety yn ailgylchu gwastraff, yn defnyddio ynni adnewyddadwy ac yn gweithredu dulliau i leihau allyriadau carbon. Mae amaeth-dwristiaeth organig yn cysylltu twristiaeth, cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd. Gall greu marchnadoedd newydd ar gyfer bwyd organig ac mae ganddo'r potensial i newid cyfeiriad dietegol pobl tuag at fwyd organig ffres.

Yr hyn sydd angen i chi eu hystyried wrth sefydlu busnes amaeth-dwristiaeth

Mae twristiaeth yn farchnad gystadleuol fodd bynnag, ac mae gofyn i unrhyw gynhyrchydd organig sydd am ddechrau busnes newydd gynllunio'r fenter yn ofalus iawn. Mae'r canllaw hwn yn cynnig rhywfaint o help wrth feddwl am gymryd y camau cyntaf.

Dod o hyd i fwy o adnoddau amaeth-dwristiaeth rhad ac am ddim ar-lein

Mae'r canllaw wedi ei gynhyrchu fel rhan o brosiect i gefnogi datblygu mentrau twristiaeth bwyd organig: Gwell Cysylltiadau Busnes Organig (BOBL). Cynhyrchwyd tri adroddiad hyd yma:

- Adolygiad o'r llenyddiaeth (Ionawr 2010)
- Datblygu marchnadoedd ar gyfer bwyd organig yn y diwydiant lletygarwch a'r sector twristiaeth yng Nghymru- Adroddiad Arolwg (Gorffennaf 2010)
- Busnesau lletygarwch organig a thwristiaeth bwyd – chwe astudiaeth achos (Hydref 2010)

Mae yr holl adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Canolfan Organig Cymru, **www.canolfanorganigcymru.org.uk**

Beth sy'n denu ymwelwyr i Gymru?

Atyniadau natur

Bwyd o Gymru

Llety ecogyfeillgar

Canfyddiadau allweddol o Croeso Cymru, Arolwg Ymwelwyr Cymru 2009

Deall y farchnad ar gyfer amaeth-dwristiaeth organig

Cynnig rhywbeth gwahanol

Mae'r farchnad dwristiaeth yng Nghymru yn dod yn fwyfwy cystadleuol gydag ymwelwyr yn disgwyl safonau uwch fyth. Er mwyn llwyddo, rhaid i fusnesau amaeth-dwristiaeth fod yn wahanol neilltuol er mwyn denu ymwelwyr. Fel y noda'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Cymru:

"Mewn marchnad dwristiaeth gynyddol gystadleuol, mae cyrchfannau yn dod yn fwy ymwybodol o'r angen i gystadlu drwy hyrwyddo a datblygu eu nodweddion unigryw a'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol i gyrchfannau eraill."

Gwnewch eich gwaith ymchwil

Yn y farchnad gystadleuol hon, fel gydag unrhyw fusnes newydd arall, mae gofyn i ddarparwyr busnesau amaeth-dwristiaeth organig newydd wneud eu hymchwil. Mae'n bwysig diffinio'r farchnad darged ar gyfer y busnes ac i gael cymaint o wybodaeth â phosibl am ei faint a'i botensial.

I gael gwybodaeth am dwristiaeth i Gymru, Arolwg Ymwelwyr Croeso Cymru yw'r lle gorau i ddechrau. Mae adroddiadau ar yr arolwg blynyddol i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwybodaeth arall ar dueddiadau twristiaeth gydag adroddiadau o arolwg a wnaed i fusnesau twristiaeth.

Amcan cyffredinol yr Arolwg Ymwelwyr yw ymchwilio i foddhad ymwelwyr ac i ddeall cymhelliant, anghenion a phatrwm ymddygiad ymwelwyr i Gymru. Yn yr arolwg mwyaf diweddar yn 2009 cafodd 3477 o ymwelwyr eu cyfweld, gyda 563 o'r rheiny yn cael eu holi yn fwy trylwyr. Ar gyfer y rhai sy'n darparu, neu'n bwriadu darparu gwyliau fferm organig, mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn dangos bod atyniadau natur yn uchel ar restrau dyheadau ymwelwyr; bod bwyd o Gymru yn denu ymwelwyr i mewn i dai bwyta a bod ffactorau amgylcheddol yn cael eu nodi fel rhai pwysig wrth ddewis cyrchfan gwyliau. Gwelwyd fod llawer o ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr o dramor yn fwriadol wedi ceisio llety sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Tabl 1: ***Pwysigrwydd ffactorau amgylcheddol ar gyfer Ymwelwyr sy'n Aros i Gymru, % graddedig ar gyfer pob ffactor***

	Pwysig iawn	Eithaf pwysig	Dim yn bwysig iawn	Dim yn bwysig o gwbl	Dim yn gwybod / Dim yn berthnasol
Diogelu diwylliant a threftadaeth	72	26	2		
Mynd ati i leihau llygredd, gwastraff a sbwriel	68	26	5	1	
Diogelu ei bywyd gwyllt a'i phlanhigion	58	36	5	1	
Cefnogi Masnachu Teg	45	42	11	1	
Rheoli ei allyriadau carbon	33	42	17	3	4

Cymru, cyrchfan boblogaidd i dwristiaid

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o dwristiaid i Gymru yn ymwelwyr o'r DU, ynghyd ag ymwelwyr o dramor sy'n gwario'n helaeth. Yn 2006, a chan anghofio am ymweliadau dydd, gwelwyd 9.6 miliwn o deithiau gan dwristiaid o'r gwledydd cartref gyda gwariant o £1,633 miliwn sy'n gyfartaledd gwariant o £170 am bob taith. Gwnaed 1.1 miliwn o deithiau gan dwristaidd o dramor gyda gwariant o £361 miliwn a chyfartaledd gwariant o £318 am bob taith.

Mae patrwm tymhorol twristiaeth i Gymru yn adlewyrchu pwysigrwydd cyfnodau gwyliau ysgol a dylanwad tymhorol y tywydd. Mae'r dadansoddiad rhanbarthol yn 2006 yn dangos taw Gogledd Cymru welodd y rhan fwyaf o ymwelwyr gyda 3.2 miliwn; De-ddwyrain Cymru ddaeth nesaf â 2.4 miliwn; 2.0 miliwn wedyn ddaeth i'r Canolbarth a 2.0 miliwn i Dde Orllewin Cymru. Er bod De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys Caerdydd yn dangos llai o amrywiaeth, mae'r tri rhanbarth arall yn dangos patrwm tymhorol pendant gyda'r penllanw ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Dangosir y patrwm cyffredinol yn Ffigur 1:

Ffigur 1: ***Ymwelwyr â Chymru – Patrwm tymhorol twristiaid o'r gwledydd cartref Patrwm Tymhorol Twristiaeth Ddomestig i Gymru, 2006, yn ôl y Mis***



Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Twristiaeth y DU, 2006

10.7 milliwn

o deithiau i Gymru gan dwristiaid yn 2006

Bwyd organig:
Cyfle i fusnesau amaeth-dwristiaeth gynnig rhywbeth gwahanol

Amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru; sector arbenigol sy'n barod i'w ddatblygu

Mae'r ystod o fentrau amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru yn datblygu ac erbyn hyn mae tua 100 o gynhyrchwyr organig ledled Cymru sy'n cynnig cyfleusterau ar gyfer twristiaid.

Mae bwyd, a bwyd organig yn arbennig, yn gwneud mentrau amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru yn unigryw a gwahanol. Mae cyfleoedd ar gael i fusnesau unigol ac ar gyfer y sector organig yn ei gyfanrwydd i hyrwyddo amaeth-dwristiaeth yng Nghymru fel darparwr arbenigol o fwyd organig a lleol.

Tabl 2: ***Llety a ddarparwyd gan fusnesau amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru***

Math o lety	Unedau	Gwelyau
Hunanarlwyo	62	295
Gwely a Brecwast	8	36
Llety i Grŵp	1	1
Gwersylla/pebyll crwyn/carafanau	29	95
Cyfanswm	100	427

Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

Ffigur 2: ***Bwyd a ddarparwyd gan ymatebwyr i westeion amaeth-dwristiaeth***



Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

Yn Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru, gwelwyd fod mwy na dwy ran o dair o'r ymatebwyr o blith ffermydd organig yn cynnig bwyd i'w gwesteion mewn rhyw ffurf gyda mwy na threian ohonynt yn cynnig brecwast a/neu brydau bwyd gyda'r nos. Roedd rhai yn cynnig gwasanaethau arbennig megis prydau bwyd wrth i'r gwesteion gyrraedd, a phecynnau bwyd ar gyfer teithiau.

Tabl 3: ***Bwyd a gynigir i westeion mewn busnesau amaeth-dwristiaeth yng Nghymru***

Math o bryd bwyd	Nifer y busnesau	% o fusnesau
Brecwast yn unig	10	20
Prydau gyda'r nos	9	18
Pecyn Croeso	9	18
Prydau parod a brynwyd o fferm	4	8
Cig neu gynnyrch o rewgell / siop fferm i fwyta ar wyliau neu fynd adref	12	24
Arall	5	10

Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

O'r 29 o ffermydd a oedd yn cynnig bwyd, roedd dros hanner y busnesau yn cynnig cynnyrch eu ffermydd eu hunain gyda 18% yn cynnig bwydydd gan gynhyrchwyr lleol eraill. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau o'r farn bod bwyd organig yn rhan bwysig o'r pecyn cyflawn a gynigiwyd ganddynt. Roedd tri chwarter o'r busnesau o'r farn ei bod hi'n 'bwysig' neu'n 'eithaf pwysig'.

Roedd dros 50% o'r ffermydd a arolygwyd yn priodoli dros 25% o incwm y fferm i amaeth-dwristiaeth

Incwm ychwanegol o fusnesau amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru

Canfu Arolwg BOBL Canolfan Organig Cymru taw rheswm ariannol sy'n gyfrifol am gychwyn menter amaeth-dwristiaeth. Gall y busnesau yma ddenu incwm ychwanegol wrth wneud defnydd o'r cyfleusterau presennol. Gallant ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch fferm yn enwedig pan gânt eu cyfuno gyda mentrau prosesu ar y fferm neu siop fferm ac maent yn darparu cyflogaeth ychwanegol i deuluoedd amaethyddol.

Tabl 4: ***Prif reswm dros ddechrau menter amaeth-dwristiaeth***

Canran	%
Er mwyn ychwanegu at incwm y fferm	35
Gwneud gwell defnydd o gyfleusterau presennol	18
I ddatblygu menter busnes newydd	16
Gostyngiad mewn cefnogaeth y llywodraeth ar gyfer ffermio	15
Manteision cymdeithasol o gwrdd â phobl newydd	6
Datblygu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer teulu	3
Eraill	7
Cyfanswm	100%

Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

Mewn rhai achosion, gwelwyd bod y busnes amaeth-dwristiaeth a arolygwyd wedi dod yn brif ffynhonnell incwm i'r busnes hwnnw. I fwy na hanner y ffermydd roedd yr incwm yn cynrychioli dros chwarter o incwm y busnes.

Fodd bynnag, ni ddylai cymhelliant ariannol guddio manteision eraill amaeth-dwristiaeth organig ar fferm. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud cysylltiadau cymdeithasol a darparu profiad addysgol ar gyfer ymwelwyr sydd ond ag ychydig neu ddim gwybodaeth flaenorol o amaethyddiaeth, boed gonfensiynol neu organig.

Mae cyfleoedd marchnata i gynhyrchwyr bwyd organig lleol

Gall cynlluniau amaeth-dwristiaeth hefyd elwa cynhyrchwyr organig trwy ddarparu marchnadoedd mewn ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth yn denau a'r galw gan ddefnyddwyr yn isel. Mae gwerthu cynnyrch fferm yn ffordd bwysig o sicrhau bod cyfran fwy o elw'r fferm yn cael ei gadw gan ffermwyr yn hytrach na chael ei seiffno bant oddi mewn i gadwyni bwyd hir sy'n arwain at adwerthwyr, proseswyr a chyfanwerthwyr. Mae'r gadwyn fwyd fer hon yn cynnig y posibilrwydd o ddod a chynhyrchwyr a chyflenwyr yn agosach at ei gilydd, i wella delwedd cynhyrchwyr a safleoedd cynhyrchu, a thrwy hynny osod arwyddion clir at darddiad y cynnyrch a phriodi mathau newydd o gyflenwad a galw.

Yn ôl Arolwg BOBL Canolfan Organig Cymru, gwelwyd bod mwy na dwy ran o dair o'r ffermwyr yn cynnig bwyd i'w gwesteion mewn rhyw ffurf a bod dros un o bob tri yn cynnig brecwast a/neu bryd gyda'r nos. Roedd rhai yn cynnig gwasanaethau arbennig megis darparu hamperau bwyd.

Trwy gyfuno'r ddarpariaeth o fwyd organig – yn aml o'r fferm ei hun – gydag ymarferion cynaliadwy ac amgylcheddol, gall y darparwyr hyn ddal i apelio at ystod eang o dwristiaid gwyrdd a moesegol. Mae gofyn i bob menter amaeth-dwristiaeth organig dargedu ymwelwyr sydd â chydymdeimlad tuag at agweddau gwyrdd a chynaliadwy.

Ffigur 3: ***Canran o incwm i'r busnes o amaeth-dwristiaeth***



Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

Gall bwyd organig wella profiad
gwyliau twristiaid moesegol

> ***Rydym yn teimlo ei bod hi'n bwysig i gefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr lleol sy'n chwarae rhan mor hanfodol yn cynnal a chadw ein cefn gwlad odidog yma yng Nghymru. Mae ein siop fach ni yn darparu llwyfan i'w cynnyrch rhagorol nhw, ac yn darparu gwasanaeth i ymwelwyr a chwsmeriaid lleol sydd am brynu bwyd lleol/organig.***

Dod o hyd i a defnyddio bwyd organig

Mae annog darparwyr lletygarwch i ddefnyddio bwyd a diod lleol wedi bod wrth wraidd ymgyrchoedd hyrwyddo yng Nghymru am ddegawd neu fwy. Ond rydym wedi dod yn bell ers 2004, pan gynhyrchodd Bwrdd Croeso Cymru 'Datblygu pecyn cymorth ar gyfer busnes twristiaeth llwyddiannus', a ble rhoddwyd dwy dudalen o sylw ar y mwyaf i fwyd a diod, a hynny yn canolbwyntio'n bennaf ar reolau, hyfforddi a rheoleiddio.

Yn 2005 fodd bynnag cyhoeddwyd cyfres o lyfrynnau dan yr enw 'Cnoi Cil' gan Gwir Flas mewn cydweithrediad â Chroeso Cymru. Roedd y canllawiau rhagorol ac ymarferol hyn wedi eu cynhyrchu yn hyfryd, ac yn cynnig i ddarparwyr bron yr oll oedd ei angen arnynt wybod am pam y dylent a sut y dylent weini bwyd lleol. Er bod ychydig o gyfeiriadau at gynnyrch organig, mae ystod ac ansawdd cynnyrch Cymreig organig wedi tyfu ers hynny ac ar gael yn gynyddol ac yn uniongyrchol gan ffermwyr a chynhyrchwyr llysiau ar draws y wlad.

Cytunir yn gyffredinol bod bwyd, a bwyd organig yn arbennig, yn gallu helpu darparwyr amaeth-dwristiaeth organig Cymreig i hyrwyddo eu hunain fel neilltuol a gwahanol, tra bod bwyd organig yn cael ei weld fel rhan bwysig o'r pecyn cyflawn. Gallai hyn, yn ei dro gyfrannu at nod cyffredinol Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Cymru sef i "gefnogi gallu cystadleuol busnesau twristiaeth, lletygarwch, bwyd a diod Cymru mewn modd sy'n gynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."

Mae llyfr Linda Moss, **'Organic Places to Stay'** yn dyst i dwf ac amrywiaeth o gynhyrchwyr organig yng Nghymru a'r DU sydd wedi arallgyfeirio i mewn i'r busnes lletygarwch. Yn y rhifyn diweddaraf (2009), mae cyfanswm o 88 o lefydd yn cael eu cynnig ar draws Cymru, gyda mwyafrif y darparwyr hynny yn cynnig prydau bwyd neu becynnau croeso gyda'r cyfan neu gyfran sylweddol ohono yn gynnyrch organig. Er bod y llyfr hwn yn cynnwys nifer o ddarparwyr lletygarwch confensiynol, mae'n gydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynyddol cynnyrch organig i'w hymwelwyr.

Defnyddio bwyd organig i godi ymwybyddiaeth am fwyd, ffermio a chynaladwyedd

Mae'r profiad o amaeth-dwristiaeth organig hefyd yn tanlinellu'r angen ehangach i hyrwyddo dealltwriaeth o natur bwyd a ffermio organig. Fel y gwnaeth un ymatebwr i Arolwg Twristiaeth BOBL nodi, "Rydym yn digalonni â'r ffordd y mae ymwelwyr yn gadael y lle. Nid ydynt yn ymddangos bod gyda nhw ddiddordeb mewn cofleidio'r foeseg organig/cynaliadwy, hyd yn oed os byddant yn dod oherwydd llyfr Linda Moss. Rydyn ni'n cynnig rhif ffôn gwasanaeth dosbarthu bwyd organig iddyn nhw, ond siomedig yw'r ymateb". Er yn ddigalon roedd gan y person yma gynlluniau ar gyfer ehangu: "Mae gyda ni nawr hefyd dŷ gwag y gallwn ni ei ddefnyddio." Fe wnaeth ymatebydd arall nodi ei ymdrechion i hyrwyddo dealltwriaeth o'r neges organig, "Mae llawer o'n gwesteion yn syfrdan o gael ei hunain ar fferm. Dyw'r ffaith fod honno'n organig neu beidio ddim yn bwysig yn eu dealltwriaeth. Rydyn ni yn fwy na hapus i egluro pan fyddan nhw'n gofyn."

Yn wir, o safbwynt yr ymwelwyr, un o brofiadau allweddol gwyliau llwyddiannus neu egwyl fer yw croeso da a bwyd da ac mae pob ymwelydd bron, yn gwerthfawrogi'r cynnig o fwydydd lleol a bwyd a gynhyrchir yn organig. Mae rhai busnesau yn cynnig hamperau bwyd sy'n cynnwys bwydydd lleol ac organig i fythynnod hunan-ddarpar yn yr ardal, a gall ymwelwyr archebu ymlaen llaw naill ai pan fyddant yn cyrraedd, neu i fynd adref gyda hwy i gofio am eu harhosiad. Mae gyda ni enw da yng Nghymru am amgylchedd glân a gwyrdd, ac rydym yn ffodus i fedru cynnig i ymwelwyr ddewis eang o gynnyrch organig, lleol, ac o ansawdd da.

Mae enghraifft dda o fusnes gwely a brecwast bach sy'n gwneud defnydd da o gynnyrch organig o'u fferm eu hunain, ac sy'n prynu cynnyrch ychwanegol gan gymdogion ac yn gwerthu i ymwelwyr yn datgan hynny ar eu gwefan.

Ffynonellau cynnyrch organig

Ar hyn o bryd, mae tua 1000 o ffermwyr a thyfwyr organig o gwmpas Cymru, rhai ohonynt yn gwerthu o giât y fferm neu mewn marchnadoedd ffermwyr, rhai eraill yn gwerthu eu cig neu lysiau drwy gynlluniau bocsys, ac eraill eto drwy'r post neu trwy ddosbarthiad lleol. Os yw darparwr yn cynnig bwyd gyda llety neu hunanarlwyo yn unig, gall cynnyrch organig fod yn ddewis sydd i'w gael yn rhesymol o ystod eang o ffynonellau. Dengys cofnodion gan Ganolfan Organig Cymru o waith a wnaed yn 2008 bod dros 120 o allfeydd yn cynnig cynnyrch organig yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchwyr sy'n gwerthu o siopau fferm, ffermwyr sy'n gwerthu cig mewn bocsys, siopau sy'n cynnig ystod eang o gynnyrch organig ac, wrth gwrs, marchnadoedd ffermwyr ledled y wlad. Mae Llyfrau Hyrwyddo Ble i Aros a Ble i Fwyta Canolfan Organig Cymru hefyd yn dangos ystod eang o ffermydd organig ble mae croeso i ymwelwyr, yn ogystal â bwytai a chaffis sy'n arbenigo mewn cynnyrch lleol ac organig.

Rhowch fwyd sy'n ennill gwobrau ar eich bwydlen

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn cefnogi ffermio organig drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol a hefyd drwy ei gefnogaeth i Ganolfan Organig Cymru. Mae Adran Bwyd, Pysgodfeydd a'r Isadran Datblygu Marchnata hefyd yn cynnig ystod o wasanaethau i gwmnïau bwyd a diod bach a mawr, gyda nifer helaeth ohonynt yn organig. Mae'r Gwobrau Gwir Flas blynyddol yn gwobrwyo rhagoriaeth ac arloesedd ymhlith cynhyrchwyr, ac mae cynhyrchwyr organig yn aml wedi cipio'r prif wobrau. Lansiwyd cyfeiriadur mwyaf diweddar LIC sy'n cynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr yng Nghymru, gan gynnwys nifer sy'n organig, yn Nhachwedd 2010. Mae hwnnw ar gael ar ffurf CD-ROM ac wedi ei gyhoeddi ar **www.walesthetruetaste.co.uk/cyhoeddiadau**

Rhowch wybodaeth am fwyd lleol ac organig

Mae marchnadoedd ffermwyr ar draws Cymru yn adnodd gwerthfawr ar gyfer darparwyr lletygarwch ac ymwelwyr fel ei gilydd. Ond mae cynnyrch lleol ac organig, wrth gwrs yn dymhorol er gwaethaf ymdrechion gorau cynhyrchwyr i dyfu cnydau sy'n cael eu diogelu. Mae tyfwyr a ffermwyr sy'n treulio oriau yn y glaw a'r oerfel yn gwerthu eu cynnyrch felly yn gwerthfawrogi'r cwsmeriaid rheolaidd hynny sy'n troi i fyny er gwaethaf y tywydd! Mae rhestr o'r 48 o farchnadoedd ffermwyr ar draws Cymru hefyd i'w gweld ar wefan y Gwir Flas.

Cadwch i fyny â newyddion bwyd lleol ac organig ac ychwanegwch ddolenni at eich gwefan

Yn olaf, os ydych chi am gadw i fyny â'r hyn sy'n digwydd yn y byd bwyd yng Nghymru a thu hwnt, mae Food Bytes, a gynhyrchwyd gan y Gwir Flas yn cynnig canllaw cyflym iawn i wneud eich ymchwil eich hun ar y we. Mae nifer o wefannau a thaflenni newyddion electronig i'ch helpu i gadw i fyny gyda'r tueddiadau diweddaraf yn y sectorau bwyd a diod.

Yn y Gwobrau Gwir Flas 2010, enillodd cynhyrchwyr organig 13 o'r 80 o wobrau, gan gynnwys

wyth aur

Mae'r farchnad eco-dwristiaeth yn tyfu deirgwaith yn gyflymach na gweddill y diwydiant twristiaeth.

Gwella eich cymwysterau gwyrdd

Pan ddaw hi i wella eich cymwysterau gwyrdd, mae rhedeg menter organig eisoes yn eich rhoi chi ar ben ffordd. Mae Egwyddorion Amaethyddiaeth Organig a gyhoeddwyd gan IFOAM sef Ffederasiwn Rhyngwladol Mudiadau Amaethyddol Organig wedi'i seilio ar bedair egwyddor; Iechyd, Ecoleg, Tegwch a Gofal. Mae Egwyddor Gofal yn nodi : "y dylai amaethyddiaeth organig gael ei reoli mewn ffordd ragofalus a chyfrifol er mwyn amddiffyn iechyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ynghyd â'r amgylchedd."

Mae'r galw am dwristiaeth sy'n fwy gwyrdd a mwy moesegol yn tyfu ar gyfradd gyflym, mewn gwirionedd mae'r farchnad mewn eco-dwristiaeth yn tyfu deirgwaith yn fwy cyflym na gweddill y diwydiant twristiaeth. Mae pob busnes yn wahanol, ond beth bynnag fo'i maint a'i nod, gall wella ei chymwysterau gwyrdd drwy amrywiaeth o ffyrdd, rhai yn syml ac eraill sy'n fwy cymhleth.

Un apêl fawr o ffermio yn organig i ymwelwyr yw ei chymwysterau gwyrdd, ac yn gynyddol maent am gael y dewis o leihau eu hôl troed carbon tra ar eu gwyliau. Mae'r ffigwr isod yn dangos bod darparwyr amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru yn llwyr ymroddedig i warchod yr amgylchedd gyda llawer ohonynt yn mabwysiadu mesurau cynaliadwy.

Ffigur 4: ***Diddordeb mewn a chamau a gymerwyd gan ddarparwyr mewn cynaliadwyedd amgylcheddol***



Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth BOBL Canolfan Organig Cymru

Gwneud y cysylltiad rhwng bwyd organig ac egwyddorion 'gwyrdd'

Un o'r mannau cychwyn amlwg yw'r ddarpariaeth o fwyd organig, lleol, tymhorol neu Fasnach Deg. Ond mae lleihau ar y defnydd o becynnau, ailgylchu a chompostio lle bynnag y bo modd hefyd â chyswllt cryf gyda chynhyrchu bwyd. Mae'n hawdd gweddnewid ethos eich busnes trwy ddefnyddio'r tair A sef Arbed, Ailddefnyddio ac Ailgylchu. Gall bron bob peth gael ei ailgylchu gydag ymchwil gofalus, cynllunio a chaffael, ac mae rheoli gwastraff yn dda hefyd yn ffordd ardderchog i dorri costau.

Mae pwysigrwydd compostio fel ffurf o waredu gwastraff yn allweddol bwysig a gall tomen gompost a reolir yn dda yn aml fod o help i addysgu! Mae'r rhan fwyaf o westeion yn dod yn fwyfwy ymwybodol o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r angen i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu a chompostio. **www.wakeuptowaste.org**

Mae effeithlonrwydd ynni yn dechrau gyda gwaith monitro a lleihau'r defnydd o ynni

Mae yna ar hyn o bryd, nifer o gynigion deniadol i'w cael ar gyfer amrywiaeth o systemau ynni adnewyddadwy, ond y cam cyntaf a'r pwysicaf yw sicrhau bod eich systemau presennol yn gweithio'n effeithlon. Mae monitro'r defnydd o ynni yn ffordd ardderchog i dorri biliau tanwydd, a gall darllen eich mesurydd trydan bob wythnos – ar yr un pryd bob wythnos sy'n ddelfrydol – fod yn ymarferiad defnyddiol.

Nesaf, beth am gynnal arolwg ar-droed o'r adeilad lle y byddwch yn rhedeg eich busnes. Does dim angen i chi fod yn arbenigwr – synnwyr cyffredin yw e'n fwy na dim, ond gall rhestr wirio helpu; lawrlwythwch **'Walk around checklist – Hospitality (CTL047)' o wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon.**

Defnyddiwch y wybodaeth a gynhyrchir gan eich arolwg ar-droed ac o fonitro'r defnydd o ynni i gategoreiddio'r materion sydd angen mynd i'r afael â nhw gydag amserlen ar gyfer gweithredu, ynghyd ag unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol, a hefyd y talebau amgylcheddol ac amgylcheddol a gewch yn ôl ynghyd â'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu pellach.

Mae **www.cus.net** yn wefan ddefnyddiol.


Walk around checklist CTL047

Hospitality sector walk around checklist

Use this walk around checklist to help identify key low or no cost energy saving opportunities within your organisation. Conducting regular housekeeping walk arounds will help form the basis of an action plan to reduce your energy use and carbon footprint.

This checklist should be read in conjunction with the Hospitality Sector Overview (CTV013), downloadable from the website, which provides further detail on most of the topics outlined below.

Heating, ventilation and air conditioning (HVAC)	Complete	Actions/comments
Have boilers been checked in the last 12 months? A regularly serviced boiler can save up to 10% on heating costs.		
Check that air ducts, heaters and radiators are not obstructed.		
Check timer settings. Heating may not be required all day and could be switched off or turned down outside peak hours.		

Ffyrdd o dorri allyriadau carbon, arbed ynni a harneisio technolegau carbon isel

Isod ceir rhai enghreifftiau eraill o sut y gall busnesau amaeth-dwristiaeth wella eu nodweddion gwyrdd gan ddechrau gyda'r sy

Bylbiau goleuo

Mae bylbiau goleuo yn gyfrifol am tua 12-20% o ddefnydd trydan domestig, gyda thua 95% o'r ynni a ddefnyddir mewn bylbiau gwynias traddodiadol yn cael ei golli mewn gwres. Mae lampau fflworolau cryno sy'n ynni effeithlon yn lleihau gwastraff gan fwy na 75%, ac yn para bron i ddeng gwaith yn hirach. Erbyn hyn mae bylbiau halogen yn cael eu gwneud gyda ffitiadau cartref safonol. Mae'r rhain yn gweithio yn yr un modd â bylbiau goleuo gwynias, ac maen nhw tua 30% ac er eu bod yn ddrutach, maen nhw yn fwy ynni effeithlon. Fodd bynnag, mae diffodd y goleuadau hyd yn oed yn fwy pwysig, gydag ac un darparwr yn gosod synwyryddion yn un o'r toiledau mewn man cyhoeddus, a thrwy hynny sicrhau bod y goleuadau yn mynd allan pan yn wag.

Dewch a goleuni haul i mewn i ardaloedd tywyll drwy ddefnyddio pibellau haul

P'un a ydych yn adeiladu o'r newydd neu yn gwneud adeilad sy'n bodoli eisoes yn fwy gwyrdd, bydd yna bob amser gorneli tywyll yn rhywle, megis isloriau, seleri, cynteddau tywyll neu gypyrddau cerdded-i-mewn lle na all golau naturiol gael mynediad. Un ffordd o ymdopi â hyn yw gosod pibellau haul. Gweler **www.sunpipe.co.uk** am fanylion.

Gosod Mesuryddion Deallus

Mae mesuryddion deallus yn dweud wrthych yn union faint o garbon yr ydych yn ei ollwng bob dydd. Mae'r rhain yn ffordd ardderchog o fonitro tueddiadau a'r defnydd o ynni ac maen nhw'n hawdd i'w gosod. Gweler **www.electrisave.co.uk** neu **www.myecostore.co.uk**

Inswleiddio

Rhaid ail-asesu pob gorchudd inswleiddio to a cheudodau, yn ogystal â'r tanc dŵr, boeler, a gorchudd pibellau. Mae rhoi gwasanaethu rheolaidd i fwyleri a thanciau dŵr poeth ynghyd â monitro digidol o dymheredd cywir dŵr i gyd yn gamau rheoli ynni rhagorol. Ystyriwch y defnydd o inswleiddio naturiol gyda chywarch neu wlân, cynnyrch y sectorau amaethyddol, ac ystyriwch gynhyrchwyr lleol hefyd. Gweler **www.blackmountaininsulation.com** neu **www.lime.org.uk**

Trowch i lawr reiddiaduron

Mae un gradd yn is ar y rheiddiadur yn cynrychioli o leiaf 100kg yn llai o allyriadau CO_2. Mae'n werth rhoi falfiau ar reiddiaduron, yn ogystal â thermomedrau a thermostatau ar wresogyddion dŵr. Dylai tymheredd dŵr fod rhwng 55-65˚C ac ni ddylai tymheredd ystafell fyth fod yn uwch na 24˚C, gyda lleiafswm o tua 16-18˚C er mwyn bod yn gysurus. Mae gwresogyddion trydan, gan gynnwys stôr wresogyddion yn cynhyrchu CO_2 bron ddwywaith cymaint â systemau nwy.

Diffodd yn lle modd segur – 'standby'

Rhoi gwybod i westeion a staff am yr effeithiau carbon o adael setiau teledu ymlaen neu hyd yn oed ar 'standby'. Mae'r rhain yn defnyddio ynni sylweddol, felly dylid eu diffodd pan fydd hynny'n bosibl. Gallai cynnig gwefrwyr haul ar gyfer cliniaduron, ffonau symudol ac iPod i ymwelwyr fod yn ddewis arall. Byddai peidio darparu teledu o gwbl yn dangos eich ymroddiad pellach i arbed ynni, gan gynnig gemau bwrdd a gemau cardiau diddorol yn ei le.

Arferion adeiladu a deunyddiau cynaliadwy

Mae polisïau gwyrdd yn aml iawn yn dechrau gydag adeiladu adeiladau, ac mae llawer o benseiri yn darparu gwybodaeth ragorol ar arferion adeiladu cynaliadwy. Am wybodaeth bellach ar arferion adeiladu gwyrdd, gweithdai a chyrsiau, cysylltwch â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth **www.cat.org.uk**. Gallwch ddilyn y trywydd yma hyd at addurno – trwy ddefnyddio paent anwenwynig ac at ddodrefni trwy ddarparu carthenni gwely wedi eu gwneud o decstilau organig. Mae yna hefyd fusnesau yng Nghymru sy'n arbenigo yn y defnydd o gynnyrch cynaliadwy a phaent 'gwyrdd' neu eco-baent. Bydd cyflenwyr o'r cynhyrchion 'eco' hyn yn hysbysebu'n rheolaidd mewn cylchgronau fel 'Organic Farming' a 'Living Earth' (y ddau ar gael gan y Soil Association, **www.soilassociation.org**), ond i gael deall twriaeth go iawn o'r ystod lawn o gynhyrchion sydd ar gael, ewch i BioFach, Ffair Fasnach y Byd ar gyfer nwyddau organig ac amgylcheddol ac a gynhelir bob blwyddyn yn Nuremberg, Yr Almaen. **www.biofach.de**

Mae un gradd yn is ar y rheiddiadur yn cynrychioli o leiaf

100kg yn llai o allyriadau CO_2

Ynni adnewyddadwy

Ystyriwch ffynonellau o ynni adnewyddadwy megis yr haul, gwynt, dŵr, pwmp gwres o'r ddaear a biomas o bren, gwastraff a chnydau ynni. Tra gall costau newid at systemau newydd fod yn ddrud, maent yn cynnig dewisiadau naturiol, glanach a mwy cynaliadwy na thanwydd ffosil. Mae cyngor ac ymgynghoriad ar osod ynni adnewyddadwy i fusnesau fferm, am y Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACRES a gyllidir o fewn y Cynllun Glastir), a'r Tariff Cyflenwi Trydan (FIT) ar gael drwy Cyswllt Ffermio. Mae gan Canolfan Hinsawdd Cymru, sef y Ganolfan Newid yn yr Hinsawdd Gymreig daflenni gwybodaeth ar ffynonellau o ynni adnewyddadwy, ac ar y defnydd o ac effeithlonrwydd ynni ar **http://www.climate-wales.org.uk/**

Mae rhai darparwyr organig yng Nghymru eisoes yn defnyddio systemau ynni adnewyddadwy; er enghraifft, mae gan un system micro-hydro-electrig yn gwasanaethu'r ffermdy a bythynnod gwyliau, gyda'r trydan dros ben yn cael ei werthu i'r grid cenedlaethol. Mae gan un arall baneli haul sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r dŵr poeth gyda system pelenni biomas pren i gynhesu'r bythynnod gwyliau. Mae darparwr 'yurt' ar fferm "oddi ar y grid" gyda thyrbinau gwynt a phaneli solar yn gwresogi'r dŵr poeth.

Defnyddio nwyddau glanhau bioddiraddadwy

Mae darparu nwyddau bioddiraddadwy yn hanfodol ar gyfer unrhyw fusnes gwyrdd, gan fod y petrocemegion a ddefnyddir mewn llawer o nwyddau glanhau yn wenwynig. Er eu bod yn torri i lawr y saim, maen nhw'n araf i dorri i lawr mewn dŵr daear a systemau dŵr gwastraff, ac mae llawer hefyd yn cynnwys ffosffadau. Mae nwyddau ecogyfeillgar yn defnyddio echdyniadau o blanhigion fel eu prif elfennau glanhau, a chwistrellau pwmpio yn lle erosolau. Gall peli eco hefyd gael ei defnyddio mewn peiriannau golchi. Mae pob un o'r darparwyr yn ein hastudiaethau achos yn cymell y defnydd o nwyddau glanhau ecogyfeillgar i osgoi defnyddio cannydd a allai niweidiol rhag rhedeg i mewn i gyrsiau dŵr.

Arbed dŵr

Mae llawer o ddyfeisiadau arbed dŵr cyfleus i'w cael erbyn hyn gyda botymau fflysio cyflym, mewnosodiadau i dapiau sy'n lleihau llif y dŵr hyd at chwistrell neu boteli dwr 500ml i'w gosod mewn sestonau. Mae plymio i mewn system dŵr llwyd sy'n ail-ddefnyddio dŵr o'r bath, y peiriant golchi a'r sinc yn addas ar gyfer fflysio toiled ac mae dŵr glaw a gasglwyd mewn casgenni dŵr sy'n saff i blant yn gallu cael ei ddefnyddio i ddyfrhau'r ardd. Mae darparu tegellau bach yn ystafelloedd ymwelwyr nid yn unig yn arbed ynni, ond hefyd yn cyfyngu ar faint o ddŵ r a wastreffir. Mae amryw o syniadau ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr ar gael gan **www.waterwise.org.uk**

Byddai system gynaeafu dŵr glaw cyflawn yn fuddsoddiad sylweddol uwch, gan arbed tua 50% ar y defnydd o ddŵr. Hefyd, byddai angen cynllunio gwely cyrs neu system wlypdir yn ofalus ar y cyd gydag ymgynghorydd proffesiynol. Mae dau o blith esiamplau astudiaethau achos twristiaeth BOBL eisoes wedi sefydlu systemau gwely cyrs i ddelio â phob dŵr brwnt, ac mae gan un ddau doiled compostio o dderi glas, a'r ddau ohonynt yn llifo i mewn i'r system hon.

Ail-ystyried polisïau trafnidiaeth i leihau ôl troed carbon

Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae ymwelwyr yn deall y gall trafnidiaeth gyhoeddus yn aml fod yn anaml ac yn anghyfleus. Fodd bynnag, mae'n werth cynnig dewisiadau gwyrdd i ymwelwyr fel cymhellion:

- Darparu beiciau i ymwelwyr gyda gwybodaeth am lwybrau addas a reidiau
- Gostyngiadau i'r ymwelwyr hynny sy'n gadael eu ceir gartref
- Darparu gwybodaeth am gludiant cyhoeddus
- Cynnig gwasanaeth i gasglu gwesteion i fyny o'r orsaf drên agosaf neu'r maes awyr
- Gallai rhaglen 'cynlluniwr siwrnai' ar eich gwefan helpu eich gwesteion i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Traveline Cymru yn darparu cynlluniwr siwrnai hawdd i'w lwytho i lawr. Gweler **www.traveline-cymru.info**

Newid tywelion a llieiniau ar gais yn unig

Mae sefydliadau mwy a gwestai nawr yn mabwysiadu cynlluniau ail-ddefnyddio llieiniau sy'n annog gwesteion i ddefnyddio eu tywelion am fwy nag un diwrnod. Gofynnir i westeion i adael eu tywelion bath ac wyneb yn hongian ar y rhesel tywel neu gawod os ydyn nhw'n dymuno eu defnyddio eto, neu eu gollwng mewn basged neu yn y twba os ydyn nhw'n dymuno cael rhai glân. Yn y sefydliadau mwy hefyd erbyn hyn, mae'n arferiad bellach i newid llieiniau bob tri diwrnod.

Cynnwys yr holl staff

Ni ellir cyflawni cynlluniau lleihau ynni llwyddiannus heblaw bod pawb yn y busnes yn tynnu gyda'i gilydd, boed y rheiny yn aelodau o'r teulu neu staff rhan-amser. Mae adborth gan staff a chydweithredu cadarnhaol rhwng staff ac ymwelwyr fel ei gilydd yn ddefnyddiol iawn.

Cynnig gwybodaeth i westeion

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ffermio a nodweddion amgylcheddol ynghyd â gweithgareddau lleol. Mae gan ffermwyr organig 'Bwyntiau Gwerthu Unigryw' (USP) pan ddaw hi'n fater o wybodaeth am amaethyddiaeth a bywyd gwyllt. Cynigiwch wybodaeth am fywyd gwyllt yn yr ardal, lleoliadau cuddfannau ar warchodfeydd natur cyhoeddus, bodolaeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), hyd yn oed y budd-daliadau sydd ar gael i ffermwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Mae llawer o ddarparwyr twristiaeth hefyd yn ymwneud ag artistiaid neu grefftwyr lleol, ac mae gyda nhw arddangosfeydd o'u gwaith ynghyd â gwybodaeth am weithdai a diwrnodau agored.

Polisi 'Plannwch goeden' ar gyfer gwesteion

Beth am annog pob teulu neu grŵp o ymwelwyr i blannu coeden gynhenid ar eich tir, ond gyda'i henwau nhw arni? Trwy wneud hyn, maent nid yn unig yn sefydlu cysylltiad â'r tir ond yn ddelfrydol mi ddôn nhw'n ôl eto i weld sut mae'r goeden yn tyfu. Mae hyn hefyd yn helpu i sefydlu'r syniad o ddal a storio carbon ac mewn ffordd fach, yn gwneud iawn am yr allyriadau $C0^2$ yr ydym i gyd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch wrthbwyso carbon – i chi a'ch ymwelwyr

Mae'r hyn a wnawn ni bob dydd, fel gyrru car, hedfan, neu hyd yn oed ddefnyddio cyfrifiadur, yn cynhyrchu allyriadau carbon deuocsid, sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd, ond fe ellir yn iawn gwrthbwyso hyn. Ond cyn dewis gwrthbwyso, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r afael â'r allyriadau rych chi'n gyfrifol amdanyn nhw gyda chymorth cyfrifiannell carbon, ac yna gallwch gyflwyno'r syniad i'ch ymwelwyr. Fodd bynnag, gyda chymaint o gwmnïau yn cynnig cynlluniau a nwyddau gwrthbwyso, mae'n anodd gwybod yn union beth mae rhywun yn ei brynu. Mae Llywodraeth y DU wedi creu brand Gwrthbwyso Carbon Cymeradwy i'w ddefnyddio fel ardystiad ar gynlluniau gwrthbwyso a gymeradwywyd gan lywodraeth y DU, ac mae gwybodaeth bellach ar gael ar: **www.direct.gov.uk/cy/environmentandgreenerliving**

Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch Polisi Cynaliadwyedd

Yn olaf, ar ôl i chi gyflawni pob un o'r uchod, gyda'r gostyngiad dilynol yn eich ôl-troed carbon – gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybodaeth i'ch ymwelwyr amdano trwy gyfrwng eich gwefan a deunydd printiedig. Mae'n ddoeth hefyd i ffurfioli eich cymwysterau gwyrdd ar ffurf Polisi Cynaliadwyedd ysgrifenedig a bydd hyn hefyd yn helpu i werthu a marchnata eich menter.

Gall y rhan fwyaf o'r arferion uchod, ynghyd â buddsoddiadau cyfalaf mewn technolegau newydd effeithlon ac adnewyddadwy, arbed arian gydag ad-daliadau gwerthfawr a all olygu awch cystadleuol ychwanegol i'ch busnes. Mae cyfoeth o wybodaeth ardderchog ar gael trwy wefannau, grwpiau a busnesau lleol.

Rhestr wirio o gamau gweithredu er mwyn lleihau effaith amgylcheddol eich busnes amaeth-dwristiaeth

- Bylbiau goleuo
- Dewch a golau haul i mewn i ardaloedd tywyll drwy ddefnyddio pibellau haul
- Gosod Mesuryddion Deallus
- Inswleiddio
- Trowch i lawr rheiddiaduron
- Diffodd yn lle modd segur – 'standby'
- Arferion adeiladu a deunyddiau cynaliadwy
- Ynni adnewyddadwy
- Defnyddio nwyddau glanhau bioddiraddadwy
- Arbed dŵr
- Ail-ystyried polisïau trafnidiaeth i leihau ôl troed carbon
- Newid tywelion a llieiniau dim ond ar gais
- Cynnwys yr holl staff
- Cynnig gwybodaeth i westeion
- Polisi 'Plannwch goeden' ar gyfer gwesteion
- Ystyriwch wrthbwyso carbon
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch Polisi Cynaliadwyedd

Bydd
Polisi
Cynaliadwyedd ysgrifenedig yn help i farchnata eich menter

Cwrdd â disgwyliadau ymwelwyr gyda mentrau ardystiedig o ansawdd uchel

Mae ansawdd yn un o'r ffactorau allweddol hynny sy'n rhoi hwb i unrhyw fusnes ac sy'n cynyddu elw. Nid oes amheuaeth bod ymwelwyr heddiw yn chwilio am brofiadau o ansawdd uchel ac mae eu disgwyliadau yn codi yn barhaus.

Mae yna ganfyddiad yn aml fod safonau graddio yn gwrthdaro yn erbyn arferion cynaliadwy. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir, ac er nad yw cynlluniau graddio Croeso Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys meini prawf ar gyfer cynaliadwyedd, maen nhw'n gweithio gyda chyrff twristiaeth cenedlaethol eraill i gynhyrchu dogfen, o'r enw Camau Cyntaf mewn Cynaliadwyedd i sicrhau na fydd cyflwyno arferion cynaliadwy i unrhyw fusnes yn effeithio ar gynllun gradd seren Croeso Cymru.

Mae gan Croeso Cymru fforwm Twristiaeth Gynaliadwy sy'n cynnig cyfle i sefydliadau ac unigolion allweddol i rannu arferion gorau mewn twristiaeth gynaliadwy ac i gynghori Croeso Cymru a'r diwydiant twristiaeth ar faterion fel lliniaru ar ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Ymateb i ddiddordeb cynyddol mewn dewisiadau 'gwyrdd'

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae newid yn yr hinsawdd a'n gorddibyniaeth ar danwydd ffosil wedi arwain at gwestiynau, pryderon a galwadau defnyddwyr am gynaliadwyedd llawer o nwyddau. Mae'r farchnad wedi ymateb i'r galwadau hyn trwy gynnig i ddefnyddwyr nwyddau a chynhyrchion sy'n gynyddol amgylcheddol gyfeillgar a gwyrdd, gan gynnwys cyrchfannau twristiaeth, cynnyrch organig, nwyddau glanhau, bwydydd babanod, dillad – mae'r rhestr yn tyfu o ddydd i ddydd.

Mae'r galw am 'glân a gwyrdd' yn golygu bod yna hefyd gynnydd cyfatebol yn yr arfer diegwyddor o hawlio cymwysterau gwyrdd ar gyfer cynnyrch, pan mewn gwirionedd nad oes yna rai, neu ychydig iawn. Mae'r term 'gwyrddgalchu' ('greenwash') yn disgrifio'r weithred o gamarwain defnyddwyr ynghylch arferion amgylcheddol cwmni neu fanteision amgylcheddol cynnyrch neu wasanaeth. Ac, fel gyda'r uchod – mae'r rhestr yn tyfu bob dydd!

Osgowch 'gwyrddgalchu', mynnwch eich ardystio

Er mwyn osgoi gwyrddgalchu ac i dawelu ofnau'r cwsmer tra'n cynnal eu hyder, mae nifer o gwmnïau, sefydliadau, darparwyr twristiaeth, cynhyrchwyr a lleoliadau yn troi at y broses o ardystio eu cynnyrch. Unwaith y mae'r cynnyrch yn drwyddedig gyda chorff ardystio cyfrifol, gall y cwsmer fagu hyder yn y cynnyrch ac mae llai o angen astudio y print mân, neu hyd yn oed i gwestiynnu hygredded a dilysrwydd y geiriau organig, naturiol, gwyrdd, diogel neu hyd yn oed anwenwynig.

Mae ardystiad annibynnol yn sicrhau bod busnesau neu sefydliadau wedi cael eu mesur yn erbyn safon sy'n caniatáu iddynt gael eu cymharu â'r rhai sy'n cystadlu yn eu herbyn a'u cyfoedion, ac felly ni ellir gorbwysleisio eu hygredded. Unwaith y bydd y cynnyrch yn dangos logo'r corff ardystio, gall y cwsmer fod yn hyderus bod cynnwys, tarddiad, cyfansoddiad, a systemau cynhyrchu'r cynnyrch hwnnw wedi cael eu harchwilio gyda thrwydded y corff ardystio wedi ei ddyfarnu iddo.

Yn achos cynhyrchion organig, mae naw corff ardystio (a elwir bellach yn 'Gyrff Rheoli') yn y DU ac maen nhw'n cwmpasu pob agwedd ar gynhyrchu a phecynnau bwyd, lles anifeiliaid, cadwraeth bywyd gwyllt, a hefyd yn gwahardd ychwanegion bwyd diangen a niweidiol mewn bwydydd organig wedi'u prosesu. Caiff ffermwyr organig sydd wedi arallgyfeirio i dwristiaeth eu trwyddedu gydag un o'r cyrff hyn, ond eu systemau amaethyddol a chynnyrch y systemau hynny yn unig sy'n cael eu hardystio fel organig, nid eu busnesau twristiaeth.

Fodd bynnag, y cwestiynau a ofynnir bob amser yw p'un a yw cael eich ardystio fel darparwr twristiaeth yn werth chweil, ac a yw'r gost yn cael ei gyfiawnhau gan y cynydd mewn busnes.

Mae i fusnesau graddedig gwyrdd ar gyfartaledd cyfradd ddeiliadaeth 10% yn uwch na'r rhai heb radd werdd.

Mae ECEAT, y Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd neu gynlluniau Greenbox yn amlygu cymwysterau gwyrdd polisïau prynu bwyd.

Manteision achredu

Mae'r Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd (GTBS) yn awgrymu bod y manteision canlynol yn deillio i fusnes twristiaeth achrededig:

- Manteision i'r amgylchedd trwy arbed adnoddau
- Lleihau gwastraff
- Lleihau costau trwy effeithlonrwydd ac ymwybyddiaeth staff
- Gwireddu disgwyliadau cwsmeriaid o fusnesau sy'n gofalu am eu hamgylchedd
- Denu cwsmeriaid newydd
- Gwella delwedd gyhoeddus
- Gwella profiad y cwsmer
- Gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Manteision i'r gymuned leol
- Cefnogi'r economi leol
- Lleihau tagfeydd a llygredd
- Gwella'r amgylchedd naturiol.

Wrth i nifer yr ymwelwyr sy'n gofyn am lawer mwy ac o ran ei chwaeth hefyd gynyddu, mae'r nifer o ddarparwyr twristiaeth sy'n dewis eu hardystio hefyd wedi codi. Yn ôl GTBS, mae arolygon a gomisiynwyd ers 2001 yn dangos bod busnesau sydd wedi ei graddio fel 'gwyrdd' yn mwynhau ar gyfartaledd, gyfradd ddeiliadaeth sydd 10% yn uwch na'r rhai heb y radd werdd.

Mae achredu ar gyfer twristiaeth werdd yn cynnwys anghenion yr amgylchedd, trigolion lleol, busnesau, a'r ymwelwyr. Mae'n cynnwys y busnesau hynny sy'n gweithio'n galed i leihau effeithiau negyddol amgylcheddol a chymdeithasol eu gweithrediadau twristiaeth.

Bu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ganolfan ar gyfer datblygu twristiaeth werdd am nifer o flynyddoedd. Erbyn hyn mae yna raglen ddwys o recriwtio, ac sy'n cynnig cyngor a hyfforddiant, gyda'r bwriad o ffurfio clwstwr o fusnesau twristiaeth wyrdd ardystiedig. Mae darparwyr twristiaeth o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn defnyddio naill ai cynllun y Ddraig Werdd, sef y cynllun achredu amgylcheddol ar gyfer busnesau yng Nghymru, gyda dros 60 o ddarparwyr twristiaeth; weld **www.wales.groundwork.org.uk** neu GTBS **www.green-business.co.uk** gyda thros 2,000 o fusnesau twristiaeth ardystiedig yn y DU. Mae Glasu, **www.glasu.org.uk** a leolir yn Llanfair-ym-muallt hefyd wedi bod yn annog darparwyr mewn ardaloedd eraill ym Mhowys i ymuno â'r GTBS, ac mae 20 o fusnesau wedi'u cofrestru gyda'r asiantaeth hon.

Mae ymuno gydag un o'r cynlluniau hyn yn sicrhau bod busnes twristiaeth yn gwneud ymrwymiad i dwristiaeth gynaliadwy ac i leihau difrod i'r amgylchedd. Mae'n sicrhau bod y busnes yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol a bod y safle yn bodloni'r safonau gofynnol o arfer da ar draws ystod o ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Bydd archwiliad rheolaidd o'r busnes yn digwydd gan weithiwr proffesiynol cymwysedig.

Pa gynllun achredu?

Mae yna restr hir o dros 300 o gynlluniau achredu ar draws y byd ar gyfer ystod eang o gynnyrch: **www.ecolabelindex.com**. Mae'r canlynol ymhlith y cynlluniau achredu sy'n cael eu cydnabod gan amlaf ar draws y diwydiant twristiaeth. O'r prif rai sy'n gweithredu yn y DU, yn anffodus dim ond tri ohonyn nhw: ECEAT, y Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd ac yn benodol yn Greenbox sydd yn cynnwys cynnyrch organig, lleol neu Fasnach Deg.

Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd: Mae busnesau sy'n dewis ymuno yn cael eu hasesu yn erbyn cyfres o feini prawf llym, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a dŵr, rheoli gwastraff, bioamrywiaeth a pholisi prynu sy'n cynnwys bwyd. Mae i'r cynllun dros 1400 o aelodau ledled y DU. **www.green-business.co.uk**

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd: Dyma system reoli amgylcheddol grisiog a all helpu busnesau i weithredu mewn dull mwy cynaliadwy. Mae cwmnïau a sefydliadau yn derbyn tystysgrif yn dangos eu cyflawniadau. **www.groundworkinwales.org.uk/greendragon**

Mae **ECEAT** yn cynnig lefel uchel o arbenigedd ym maes twristiaeth gynaliadwy. Mae'r pwyslais ar ardaloedd gwledig a ffermio organig, gyda dros 1300 o unedau llety cynaliadwy ar raddfa fechan ar hyd a lled Ewrop. **www.eceat.org**

Greenbox: Fe'i cyhoeddwyd yn 2009 fel Llawlyfr Ecodwristiaeth cyntaf Iwerddon, ac mae'r canllaw hwn i ddarparwyr yn cynnig awgrymiadau ar faterion amgylcheddol, cymunedol a lleol, y gefnogaeth sydd yna o gyfeiriad cynhyrchwyr bwyd organig a chrefftwyr, addysg amgylcheddol a lleihau ôl-troed carbon. Gan weithio ar y cyd gyda Ecolabel yr UE, mae Greenbox hefyd yn amlygu ei hunan fel cyrchfan gwirioneddol eco-dwristaidd cyntaf Iwerddon ac sydd wedi ei leoli yng ngogledd-orllewin y wlad. **www.greenbox.ie**

Mae'r **Ecolabel Ewropeaidd** yn gynllun gwirfoddol a sefydlwyd ym 1992 i annog busnesau i farchnata cynhyrchion a gwasanaethau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd. Mae cynhyrchion a gwasanaethau a ddyfarnwyd gyda'r Ecolabel yn arddangos logo blodau, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr eu hadnabod yn hawdd. **http://ec.europa.eu/environment/ecolabel**

Sefydlwyd yr **Allwedd Werdd** (Green Key) yn wreiddiol ar gyfer gwestai yn Nenmarc a Ffrainc. Mae eco-label rhyngwladol, a ddyfernir i sefydliadau hamdden a gwestai. Caiff ei gefnogi gan grwpiau defnyddwyr, cyrff anllywodraethol, awdurdodau a busnesau. **www.green-key.org**

Mae'r **Green Globe Company Standard** (EC3 Byd-eang) yn cael ei ategu gan Earthcheck Science ac yn gweithredu yn Asia, America ac Ewrop, ond dim ond pedwar o ardystiadau sydd wedi cael eu dyfarnu yn y DU. **www.ec3global.com/products-programs/green-globe**

Cynllunio menter amaeth-dwristiaeth

Cyn dechrau ar fenter amaeth-dwristiaeth organig newydd, dylid paratoi cynllun busnes. Mae hyn yn crynhoi eich busnes a dylai ddatgan ble mae eich busnes yn sefyll ar hyn o bryd, i ba gyfeiriad rych chi am iddo fynd, a sut mae'r busnes am gyrraedd yno.

Dylai'r ddogfen hon osod allan yn glir eich strategaeth a'ch amcanion ar gyfer y dyfodol. Bydd yn eich helpu i asesu pa mor dda y mae eich busnes yn ei wneud ac mae'n ddefnyddiol wrth helpu i sicrhau cyllid ar gyfer eich prosiect amaeth-dwristiaeth organig.

Elfennau cynllun busnes:

- Proffidioldeb y busnes presennol
- Proffidioldeb y fenter newydd
- Effaith y fenter newydd ar y mentrau sy'n bodoli eisoes
- Gofynion Cyfalaf
- Adnoddau ychwanegol sydd eu hangen
- Gofynion Benthyca
- Marchnata.

Cynnwys cynllun busnes:

- Crynodeb
- Amcanion
- Adnoddau
- Adolygiad o'r busnes presennol
- Perfformiad y fenter
- Mantolen ariannol
- Proffidioldeb
- Hyfywedd
- Cyllidebau
  - Costau cyfalaf
  - Cyllid a chostau
  - Costau sefydlog ychwanegol ee llafur, trydan
  - Elw
  - Rhagdybiaethau a wneir yn y cynllun
  - Sut y caiff ei ariannu?
  - Sut y bydd y fenter newydd yn cyd-fynd â'r busnes sy'n bodoli eisoes?
  - Beth fydd yr anghneion ariannol diwygiedig ar gyfer y fenter eco-dwristiaeth newydd
- Rhagolwg llif arian
- Dadansoddiad sensitifrwydd
- Cynllun marchnata
  - Beth yw eich marchnad?
  - Adnabod eich cystadleuwyr
  - Prisiau
  - Nodwch sut yr ydych yn mynd i hyrwyddo eich prosiect amaeth-dwristiaeth organig
- Atodiadau

Eich cynllun busnes mewn manylder:

Crynodeb: Dylai hyn grynhoi eich busnes presennol ynghyd a'ch prosiect amaeth-dwristiaeth organig.

Amcanion: Nodwch yn gryno yr amcanion busnes. Disgrifiwch sut y byddwch yn eu cyflawni a thros ba gyfnod o amser.

Adnoddau: Nodwch adnoddau presennol y fferm yn nhermau tir, adeiladau, peiriannau, cnydau, da byw a llafur. Rhowch fanylion am sut y mae'r busnes wedi ei strwythuro e.e. partneriaeth, unig fasnachwr, a nodwch unrhyw gyfyngiadau.

Adolygiad o'r busnes presennol: Mae hyn yn bwysig gan fod ymchwil yn dangos bod busnesau sydd eisoes yn gwneud yn dda yn fwy tebygol o lwyddo mewn prosiect arallgyfeirio.

Perfformiad y fenter: Beth yw'r mentrau sy'n bodoli eisoes? Pa mor dda yw eu perfformiad o'i cymharu â mentrau tebyg eraill o ran maint? Beth yw eu cryfderau a'u gwendidau?

Mantolen ariannol: Mae hon yn cynnwys gwerth yr asedau busnes a rhwymedigaethau. Mae ecwiti'r perchennog – sef y gyfran o'r busnes yr ydych yn ei berchen (Cyfanswm Asedion llai Cyfanswm y Rhwymedigaethau) yn arwydd o iechyd ased y busnes. Po uchaf fo ecwiti'r perchennog yna yr isaf fo'r benthyca. Yn bwysicach fyth, dylid anelu at wella ecwiti'r perchennog ecwiti flwyddyn ar flwyddyn.

Proffidioldeb: Dylai'r cynllun busnes gynnwys elw'r busnes a/neu golledion ar gyfer y 3 blynedd diwethaf. Os oes newid sylweddol mewn proffidioldeb rhwng y blynyddoedd dylai'r rhesymau am hyn gael eu hesbonio.

Hyfywedd: Dylai'r elw gynnwys y canlynol:

- Tyniadau a threth
- Ad-daliadau benthyciad cyfalaf
- Ad-daliadau cyfalaf hurbwrcas
- Cyfalaf ail-fuddsoddi.

Gelwir y rhain yn anghenion arian parod y busnes. I fusnes i fod yn hyfyw, dylai'r elw ragori ar ei anghenion arian parod.

Cyllidebau ar gyfer y mentrau newydd: Nodwch beth yw eich opsiynau busnes. Efallai y byddwch am edrych ar fwy nag un opsiwn; os felly, dylid cynnwys cyllideb ar gyfer pob opsiwn a dylid nodi:

- Cost cyfalaf o sefydlu'r fenter eco-dwristiaeth
- Cyllid a chostau
- Costau sefydlog ychwanegol ee llafur, trydan
- Elw
- Y rhagdybiaethau a wneir yn y cynllun
- Sut y caiff ei ariannu? A yw'n cael ei ariannu trwy orddrafft neu a fydd angen benthyciad? Os oes angen benthyciad wedyn yna rhaid cynnwys cyfanswm y benthyciad, tymor yr ad-daliad a'r gyfradd benthyca.
- Sut fydd y fenter newydd yn cyd-fynd â'r busnes sy'n bodoli eisoes?
- Beth fydd yr anghenion ariannol diwygiedig ar gyfer y fenter eco-dwristiaeth newydd? Unwaith eto a yw'r elw yn ddigonol i ddiwallu anghenion arian parod y busnes? Os nad ydy e', beth yw'r diffyg, a faint mwy o incwm sydd ei angen i wneud iawn am y diffyg? Faint fyddai angen i brisiau i godi neu faint yn fwy o unedau fyddai angen eu gwerthu?

Rhagolwg llif arian: Mae hyn yn ofynnol yn aml i weithio allan amseriad y buddsoddiad a'r lefelau benthyca yn ystod y flwyddyn. Efallai y bydd rhai benthycwyr yn mynnu llif arian 2 flynedd, oherwydd bydd costau sefydlu yn ystod y flwyddyn gyntaf yn arwain at gynnydd mewn gorddrafft yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Wrth i'r busnes dyfu gellir disgwyl gostyngiad yn y gorddrafft, oni bai bod arian ychwanegol ar gyfer twf yn cael ei ddarparu gan y cyfrif gorddrafft.

Dadansoddiad sensitifrwydd: Mae'r adran hon yn rhoi sylw manwl i sut y bydd newidiadau mewn cyfaint gwerthiant, prisiau a chostau, yn effeithio ar broffidioldeb eich busnes. Er enghraifft, mae busnes sy'n cynllunio i osod adnodd eco-wyliau am 20 wythnos y flwyddyn ar gyfartaledd o £400 yr wythnos, yn sicrhau cyfanswm incwm o £8,000.

Byddai newid o un-wythnos yn y nifer o wythnosau yn cael effaith o £400 ar yr elw.

Byddai unrhyw amrywiad ym mhris cyfartalog y gosod o £50 yn cael effaith o £1,000 ar yr elw.

Cynllun marchnata: Ni all busnes amaeth-dwristiaeth organig lwyddo heb farchnata da. Mae twristiaeth yn fusnes hynod gystadleuol. Rhaid gwneud ymchwil i'r farchnad er mwyn sefydlu, proffil cwsmer, prisio, y galw a'r gystadleuaeth sydd yna am eich cynnyrch arfaethedig.

Beth yw eich marchnad? Beth yw'r farchnad ar gyfer amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru o ran maint, strwythur, rhagolygon twf, tueddiadau a'r gwerthiant posibl? Dylech gynnwys ystadegau a gyhoeddwyd ar y farchnad amaeth-dwristiaeth organig Gymreig. Ar gyfer eich prosiect eich hun, diffiniwch eich marchnad darged ac amcangyfrifwch faint y farchnad darged yr ydych yn bwriadu ei chyrraedd. Efallai y bydd angen i chi wneud eich ymchwil marchnad eich hun trwy gynhyrchu eich holiadur eich hun.

Nodwch eich cystadleuwyr: Beth yw eu cryfderau a'u gwendidau? Sut mae eich cynnig yn wahanol i'r hyn a gynigir ganddyn nhw? Cymharwch eich cynnyrch â'u cynnyrch nhw. Beth yw eich pwyntiau gwerthu unigryw (USP)?

Prisio: Dangoswch beth fydd pris eich cynnyrch neu eich gwasanaeth. (Dylai hyn hefyd gael ei gynnwys yn adran cynllun busnes yr adroddiad). Sut mae eich pris yn wahanol i'ch cystadleuwyr? Os yw'n fwy, pwysleisiwch pa agweddau ar eich cynnig chi sy'n wahanol. Os yw'n llai, yna nodwch pam gan sicrhau ei fod yn gadael digon o elw.

Nodwch sut yr ydych yn mynd i hyrwyddo eich prosiect amaeth-dwristiaeth organig:
Mae gwefan dda, hawdd ei defnyddio yn hanfodol ac mae'n bwysig bod eich gwefan yn ymddangos wrth ddefnyddio chwiliotwr. Pa gyhoeddiadau ydych chi'n bwriadu eu defnyddio? Sut mae hyn yn wahanol i'ch cystadleuwyr?

Atodiadau: Yn olaf, dylai eich cynllun busnes gynnwys y canlynol:

- Adnoddau'r fferm
- Cyfrif elw a cholled am y tair blynedd diwethaf
- Mantolen ariannol
- Cyllideb elw a cholled ar gyfer pob opsiwn
- Rhagolwg/rhagolygon llif arian
- Rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y cynllun busnes/rhagolwg
- Manylion ymchwil marchnata am unrhyw holiaduron a ddefnyddiwyd.

Ni all busnes amaeth-dwristiaeth organig

lwyddo heb farchnata da

Cyllido yng Nghymru

Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth

Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar uwchraddio ansawdd busnesau twristiaeth sy'n bodoli eisoes yn y sector preifat, ac sydd â record o 12 mis. Mae'r cynllun yn cael ei ehangu yn 2011 gyda chefnogaeth yn cael ei flaenoriaethu o fewn sectorau penodol a mathau o brosiect.

Am ragor o wybodaeth:
www.cymru.gov.uk/topics/tourism/investsupport/?skip=1&lang=cy

Ebost: **tiss@wales.gsi.gov.uk**
Ffôn: **0845 010 8020**

Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cymorth un i un, cyngor a hyfforddiant i fusnesau fferm a choedwigaeth yng Nghymru. Mae llawer o wasanaethau Cyswllt Ffermio megis Rhaglenni Datblygu ar gyfer sectorau penodol yn cael eu hariannu'n llawn, tra bod eraill yn derbyn cymhorthdal o 80%, gan gynnwys y Cynllun Fferm Gyfan sy'n helpu busnesau i gynllunio ar gyfer y dyfodol, i redeg y busnes yn fwy effeithlon a diogelu dyfodol y busnes.

Mae mentora yn cael ei gynnig mewn nifer o feysydd megis cyngor technegol, iechyd anifeiliaid, cynllunio busnes ac arallgyfeirio. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr yn wasanaeth cyfrinachol sy'n edrych ar bob agwedd ar Trawsgydymffurfio yn ymwneud â'r fferm, ac yn cynnwys cyngor arbenigol ar agweddau megis priddoedd, storio tail, systemau dŵr budr a lles anifeiliaid. Mae'r Rhaglen Datblygu Sgiliau yn darparu mynediad i gyrsiau hyfforddiant ymarferol a rhai sydd ynghlwm wrth reoliadau ar draws Cymru.

Mae Cyswllt Ffermio yn cael ei ariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth:

For further information:
Cyswllt Ffermio Canolfan Gwasanaethau,
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3UE

Ffôn: **08456 000813**
Ebost: **farming.connect@wales.gsi.gov.uk**

www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingconnect/contactfc/?skip=1&lang=cy

Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Menter gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) er mwyn datblygu prosiectau arloesol cynaliadwy sy'n datblygu a phrofi ffyrdd newydd o sicrhau bywyd mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddangos atebion ymarferol sy'n berthnasol i agweddau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd o fywyd yw'r nod. Gall prosiectau amrywio o rai lleol i rai sy'n berthnasol ar draws Parc Cenedlaethol neu ardal ehangach hyd yn oed.

Mae pob un o'r Parciau Cenedlaethol yn gyfrifol am weinyddu cynllun y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, yn ôl y canllawiau gweithredol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gall ymgeiswyr wneud cais am arian ar gyfer 50% o'u prosiect.

Mae'r cynllun uchod yn amrywio ychydig rhwng y Parciau Cenedlaethol oherwydd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn meddu ar gynllun grant ychwanegol, y Grant Fach Werdd. Mae hon yn darparu cyllid o hyd at £1,500 tuag at brosiect ac fe'i rheolir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddog Prosiect CAE
Swyddfa Parc Cenedlaethol Eryri,
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: **01766 772 252**
Ebost: **Sara.Wynne-Pari@eryri-npa.gov.uk**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Swyddog SDF

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion, Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6DY

Ffôn: **0845 634 7275**
Ebost: **sdf@pembrokeshirecoast.org.uk**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu LD3 7HP

Ffôn: **01874 620471**

Awdurdodau Lleol

Mae gan rhai awdurdodau lleol gyllid ar gyfer prosiectau twristiaeth. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am ragor o wybodaeth.

Casgliad

Tra bod twristiaeth yn fusnes cystadleuol mae dau gyfle clir yn y farchnad ar gyfer cynhyrchwyr organig mewn cynlluniau amaeth-dwristiaeth. Yn gyntaf mae cyfle i ddarparu gweithgareddau twristiaeth arbenigol neu lety ar eu fferm organig nhw eu hunain, ac yn ail i gyflenwi gweithrediadau amaeth-dwristiaeth gerllaw gyda chynnyrch fferm organig. Mae'r ddau gyfle yn cynnig eu hunain oherwydd diddordeb cynyddol ymwelwyr mewn materion amgylcheddol a thwristiaeth bwyd.

Mae cyfle ehangach yn bodoli i drosglwyddo neges y sector organig. Gall amaeth-dwristiaeth organig ddangos y cysylltiad rhwng bwyd, ffermio, a chynaliadwyedd trwy ddweud stori'r bwydydd organig sydd ar y bwrdd brecwast. Ar yr un pryd, gall busnesau amaeth-dwristiaeth organig ddangos i ddefnyddwyr sut y gall eu pryderon am yr amgylchedd gael eu hateb, nid yn unig gan ddewisiadau yn ymwneud â thrafnidiaeth ac ynni, ond hefyd gan eu dewis o lety a'r dewis o fwyd maen nhw'n ei fwyta a'i brynu tra ar eu gwyliau.

Am ragor o wybodaeth am fwyd organig ac amaeth-dwristiaeth ewch i wefan Canolfan Organig Cymru. **www.canolfanorganigcymru.org.uk**

Rhestr o Dablau a Ffigurau

Rhestr o Dablau

Tabl 1: Pwysigrwydd ffactorau amgylcheddol ar gyfer Ymwelwyr sy'n Aros i Gymru, % graddedig ar gyfer pob ffactor **4**

Tabl 2: Llety a ddarparwyd gan fusnesau amaeth-dwristiaeth organig yng Nghymru **5**

Tabl 3: Bwyd a gynigir i westeion mewn busnesau amaeth-dwristiaeth yng Nghymru **5**

Tabl 4: Prif reswm dros ddechrau menter amaeth-dwristiaeth **6**

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Ymwelwyr â Chymru – Patrwm tymhorol twristiaid o'r gwledydd cartref Patrwm Tymhorol Twristiaeth Ddomestig i Gymru, 2006, yn ôl y Mis **4**

Ffigur 2: Bwyd a ddarparwyd gan ymatebwyr i westeion amaeth-dwristiaeth **5**

Ffigur 3: Canran o incwm i'r busnes o amaeth-dwristiaeth **6**

Ffigur 4: Diddordeb mewn a chamau a gymerwyd gan ddarparwyr mewn cynaliadwyedd amgylcheddol **9**

Cydnabyddiaethau

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig

Mae Canolfan Organig Cymru wedi sicrhau bron i £2 filiwn ar gyfer prosiect Gwell Cysylltiadau Busnes Organig (BOBL), er mwyn trosglwyddo twf cynaliadwy i'r sector organig yng Nghymru dros dair blynedd: 2009-2012.

Cyfle i hyrwyddo cynaliadwyedd

Mae prosiect BOBL yn rhoi cyfle unigryw i'r sector organig yng Nghymru i:

- Ddatblygu marchnadoedd newydd ac esblygol at y marchnadoedd sy'n bodoli eisoes ar gyfer cynnyrch organig.
- Arloesi mewn amaethyddiaeth, prosesu a datblygu cynnyrch.
- Hyrwyddo arferion cynaliadwy ar ffermydd, mewn lladd-dai, mewn ystafelloedd torri a cheginau ac ar hyd y gadwyn fwyd.
- Codi ymwybyddiaeth o'r farchnad ymhlith cynhyrchwyr a chynyddu gwerthiant ar draws yr ystod o allfeydd.

Mynd i'r afael â phob rhan o'r gadwyn gyflenwi

Mae prosiect BOBL yn gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o ddarparwyr arbenigol i gyflwyno'r cyfleoedd hyn drwy ganolbwyntio ar agweddau megis:

- Gyrru arloesedd trwy dreialon ac ymchwil.
- Gefnogi cyfleoedd i ddatblygu'r farchnad megis amaeth-dwristiaeth a rhaglenni effeithlonrwydd yn y gadwyn gynhyrchu.
- Lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad, a chan gomisiynu arolygon agwedd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr mewn manylder.
- Mynd i'r afael â phroblemau strwythurol allweddol o fewn y sector, megis anghydbwysedd mewn cyflenwad a galw yn y ddarpariaeth o gynyrch garddwriaeth organig, ac argaeledd cywennod organig.
- Materion trawsbynciol: Cymunedau Bwyd Cynaliadwy a Marchnadoedd Amgen Diogel.
- Cynnal ymgyrch gyfathrebu integredig i helpu'r sector i gyflwyno negeseuon clir am y manteision o fwyd a ffermio organig.

Trwy gryfhau'r sector ar bob pwynt ar hyd y gadwyn gyflenwi, nod y prosiect yw gadael etifeddiaeth o ddiwydiant organig yng Nghymru sydd yn fwy cadarn, ymatebol a chynaliadwy.

Ariennir y prosiect dan y Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, sydd yn ei dro yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ADAS ar gyfer prosiect BOBL. Cafodd ei ymchwilio a'i ysgrifennu gan David Frost, Carolyn Wacher, Fay Francis a Carolyn Smith.

Am wybodaeth bellach am y prosiect ewch i:
www.canolfanorganigcymru.org.uk/business-bobl.php?lang=cy&

Neu cysylltwch â Prosiect BOBL,
d/o Ganolfan Organig Cymru.

Ffôn: **01970 622248**
Ebost: **bobl-project@aber.ac.uk**

Dywedwch y stori tu cefn i
fwyd organig
wrth y bwrdd brecwast